# Cyngor Cymuned **Ceulanamaesmawr** Community Council

**Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd**
**nos Lun 27 Ebrill 2026 am 7.30 p.m. yn Neuadd Goffa Tal-y-bont**

1. **Croeso'r Cadeirydd**

   **Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Siôn Pennant Jones, Eryl Bray, Rhian Evans, Enoc Jenkins (Is-gadeirydd) a Catrin Davies (Cyng. Sir – yn hwyr)

   **Yn cofnodi:** Lynwen Rees Jones

   Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. **Ymddiheuriadau**

   Y Cynghorwyr Bleddyn Huws, Nia Richards, Mererid Watson, Nest Jenkins ac Elgan Evans

3. **Datgan Buddiant Personol**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant perosnol.

4. **Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

   i) Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2026, yn gywir. Cynnig: Eryl Bray; Eilio: Rhian Evans

5. **Materion yn codi:**

   i) Materion a adroddwyd trwy Clic i'r Cyngor Sir:
      a) Roedd ffordd Cae'r Arglwyddes wedi cael wyneb newydd hyd at Faesglas.
      b) Roedd ceir wedi bod yn ralïo ar hyd y ffordd rhwng Gwarcwm a Phen-y-sarn ac roedd ei chyflwr wedi gwaethygu.
      c) Roedd cerbydau a beiciau modur wedi bod yn sgramblo ar hyd fford Glanrafon, gyda thipyn o deithio ar hyd-ddi.
      d) Roedd y ffordd o Bencwm i Dal-y-bont wedi cael ei thrwsio.
      e) Roedd rhannau o ffordd Cwm Ceulan wedi cael eu trwsio.

   ii) Mynwent Nazareth: gan nad oedd y Cyng Bleddyn Huws yn bresennol, penderfynwyd gadael y mater hwn ar y bwrdd. Gofynnwyd i'r Clerc holi Robert Griffiths faint fyddai'n ei godi i strimio mynwent Nazareth er mwyn cael syniad o'r costau cynnal a chadw.

   iii) Roedd Bryn Smith wedi cytuno i fod yn archwilydd mewnol unwaith eto eleni.

   iv) Roedd anfoneb ddiwethaf y Neuadd Goffa wedi cael ei diwygio o £385 i £365, ac wedi cael ei thalu.

   *Cyrhaeddodd y Cyng. Catrin Davies am 7.55pm.*

6. **Adran 6 – Bioamrywiaeth**

   Roedd glaswellt y fynwent wedi cael ei dorri, ynghyd â'r holl friallu a blodau gwyllt. Nodwyd nad oedd y toriad cyntaf fod tan ddiwedd mis Mai/dechrau mis Mehefin. Penderfynwyd tynnu sylw RG at hyn a gofyn iddo beidio â thorri'r blodau gwyllt yn y dyfodol.

   Roedd tir parc chwarae Bont-goch yn wlyb iawn, ac roedd RG wedi nodi mai dŵr yn gollwng o eiddo Dŵr Cymru a oedd yn gyfrifol. Cynigiondd Eryl ac eiliodd Siôn y dylid tynnu slyw Dŵr Cymru at hyn er mwyn iddynt ymchwilio.

7. **Gohebiaeth**

   Roedd y Clerc wedi anfon pob gohebiaeth electronig berthnasol ymlaen at y Cynghorwyr yn ystod y mis. Nodwyd y canlynol yn benodol:

   i) Adduned cwrteisi a pharch (ULlC): penderfynwyd anwybyddu hwn.

ii) Roedd y Loteri Genedlaethol wedi cydnabod bod y cais am grant wedi cael ei gyflwyno. Byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud 15 wythnos ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais, sef dechrau mis Ebrill.

iii) Cafwyd neges e-bost gan un o drigolion Tal-y-bont yn nodi bod tyfiant yn culhau'r ffordd lawr o Faes-y-felin ac yn crafu cerbydau. Nodwyd bod y perchennog yn byw yn Birmingham. Penderfynwyd cysylltu ag ef i ofyn iddo docio'r coed yn briodol.

**8. Materion ariannol:**

i) Trafodwyd y rhestr asedau ddiwygiedig a'i chadarnhau. Nodwyd bod angen trwsio nifer o feinciau erbyn hyn. Awgrymwyd y gellid gwneud cais i Gronfa Leri am arian ar gyfer y gwaith hwn/prynu meinciau newydd. Roedd y fainc ger yr arhosfan fysiau wrth yr ysgol wedi cael clec ac mewn cyflwr gwael. Y Clerc i chwilio am brisiau meinciau newydd.

ii) Adroddiad ariannol: roedd y Clerc wedi dosbarthu manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ymlaen llaw. Roedd y sefyllfa ar 27.04.2026 fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Y cyfrif cyfredol | £1,634.54 |
| Y cyfrif cadw | £8.72 |
| Cyfrif y Tabernacl | £4,654.99 |
| Cyfrif Cae Bach | £18,897.50 |
| Arian mân | £1,058.29 |
| Cyfanswm | **£26,254.04** |

iii) Incwm ers y cyfarfod diwethaf:
Ad-daliad TAW – £4,231.16 (£3,180 i gronfa Cae Bach)
Sêl Planhigion – £1,072.60
Llog banc – £19.24
Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu holl waith gyda'r sêl planhigion. Penderfynwyd anfon gair o ddiolch at y rhai a gyfrannodd planhigion a chacennau ac a fu'n rhoi help llaw i baratoi.

iv) Anfonebau i'w talu:
a) Nia Richards, costau Cwtsh Cynnes – £8.00
b) Ellen ap Gwynn, costau Cwtsh Cynnes – £40.34
Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r taliadau uchod.
Cynnig: Catrin Davies; Eilio: Eryl Bray

**9. Cynllunio**

Cais A260206 – Llys Etna, Tal-y-bont: roedd y Cyng. Nia Richards wedi nodi bod y cais yn cadw at ofynion amgylcheddol. Penderfynwyd nodi 'dim sylw'.

**10. Y Caeau Chwarae**

i) Ymgyrch Cae Bach: codwyd £1,072.60 yn ystod y sêl planhigion ar 25 Ebrill.
Byddai cwis yn cael ei gynnal yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont ar 29 Ebrill.
Roedd cwmni CES wedi nodi na fyddai'n gallu mynd ymhellach â'r cynllun draenio ar gyfer Cae Bach ac wedi cynnig ad-daliad o £437.50 + TAW. Nodwyd y byddai'n rhaid chwilio am ddatrysiad arall i'r broblem, e.e. cyfeirio unrhyw ddŵr wyneb at y draen ar ochr arall y ffordd.

ii) Adroddiadau misol:
- Cae Bach: roedd y glaswellt wedi cael ei dorri. Roedd mam ifanc wedi dod o hyd i botel gwydr wedi torri yno – hwn wedi'i glirio erbyn hyn. Roedd hen ffrâm fetel wedi cael ei gadael yno – byddai angen ei symud. Roedd yna darnau metel peryglus ar ffrâm yr hen wal

ddringo – byddai angen gwaredu'r rhain yn ddiogel. Roedd styllen wedi torri ar y bwrdd picnic bach – penderfynwyd gofyn a fyddai Jamie neu Spencer Davies yn fodlon ei drwsio.
- Bont-goch: Roedd y cyfarpar i gyd yn ddiogel. Cafwyd dyfynbris o £1,002.24 gan Bedwyr Siencyn am y gwaith o drwsio'r ffensys a'r gât. Gan y byddai mwy nag un dyfynbris yn ofynnol, penderfynwyd gofyn am ddau arall; awgrymwyd John Henry Jones yn un enw.

**11. Unrhyw Fater Arall**

i) Diweddaru polisïau: nodwyd y byddai'n ofynnol diweddaru polisïau'r Cyngor a'u cadarnhau yn ystod y cyfarfod blynyddol. Byddai'r Clerc yn eu dosbarthu at sylw'r Cynghorwyr ymlaen llaw.
ii) Roedd bwlch wedi cael ei agor yn sietyn Cae Sticil i ffurio agoriad newydd i'r ffordd. Holwyd a oedd hawl gwneud hyn.
iii) Roedd ci rhydd wedi cnoi un o breswylwyr Tal-y-bont. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl holi i'r Warden Cŵn ddod yno i gael ei weld a amgylch y pentref.
iv) Roedd y Cyng. Catrin Davies wedi bod mewn cysylltiad â'r swyddog sy'n dechrau ar y broses o arafu'r terfyn cyflymder ym mhentref Bont-goch. Byddai'n dosbarthu rhagor o fanylion maes o law.

**12. Dewis enillwyr y Clwb 200**

Defnyddiwyd ap cynhyrchu haprifau i ddewis enillwyr mis Ebrill fel a ganlyn:
1$^{af}$ – 93, Paul Watson (£50); 2$^{il}$ – 191, Enoc Jenkins (£20); 3$^{edd}$ – 118, Maureen Wootton (£10)
Cymeradwywyd talu'r gwobrau o arian mân Cae Bach. Nododd Enoc ei fod am gyfranu'r arian at y gronfa.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. ar 18 Mai 2026 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, a hynny ar ôl y Cyfarfod Blynyddol, a fydd yn dechrau am 7 o'r gloch.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 p.m.

Llofnodwyd: _______________________ Dyddiad: _______________________